**MEMORANDWM CYDSYNIAD OFFERYN STATUDOL**

**Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc) (Ymadael â'r UE) 2020**

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 30A.2. Mae RhS 30A yn rhagnodi bod rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol, ac y ceir cyflwyno cynnig Cydsyniad Offeryn Statudol, gerbron Senedd Cymru os yw Offeryn Statudol (OS) y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru.

2. Gosodwyd Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc) (Ymadael â'r UE) 2020 gerbron Senedd y DU ar 14 Hydref 2020. Cewch weld y Rheoliadau yn:

   https://www.legislation.gov.uk/ukdsi/2020/9780348213775/introduction

## Crynodeb o'r Offeryn Statudol a'i amcanion

3. Amcan y Rheoliadau yw cynnal bioddiogelwch a chefnogi masnach trwy sicrhau bod mesurau effeithiol ar gyfer diogelu iechyd planhigion yn parhau o fewn Prydain Fawr a rhwng Prydain Fawr a'r UE ar ddiwedd y Cyfnod Pontio ar 31 Rhagfyr 2020. Bydd y polisi cyfredol a gymhwysir o dan ddeddfwriaeth yr UE o weithredu mesurau rheoli iechyd planhigion sy'n seiliedig ar risg yn parhau. Bydd y drefn fodd bynnag yn canolbwyntio ar risgiau i Brydain Fawr yn hytrach na risgiau i'r UE er mwyn sicrhau bod modd ei gyfiawnhau'n dechnegol yn unol â rhwymedigaethau Sefydliad Masnach y Byd a Rheoliadau'r UE. Bydd yr asesiad risg Prydeinig yn dilyn yr un dulliau a'r egwyddorion a gydnabyddir yn rhyngwladol a ddefnyddiwyd gan yr UE i ddadansoddi Risg Plâu.

## Darpariaeth berthnasol i'w gwneud gan yr OS

4. Mae Rhan 2 y Rheoliadau'n diwygio adrannau 2(1) a 3(1) o Ddeddf Iechyd Planhigion 1967 i hepgor y geiriau "or called for by any EU obligation" ("y ddarpariaeth beerthnasol").

## Pam ei bod yn briodol gwneud y ddarpariaeth hon trwy'r OS

5. Nid oes gwahaniaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ynghylch polisi'r ddarpariaeth berthnasol, sy'n fân ddiwygiad o ganlyniad i ymadael â'r UE. Byddai gwneud OSau ar wahân felly yng Nghymru a Lloegr i gywiro'r adrannau dan sylw yn arwain at ddyblygu gwaith, ac at gymhlethu'r llyfr statud yn ddiangen. O dan yr amgylchiadau eithriadol hyn, mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol i Lywodraeth y DU ddeddfu ar

ein rhan yn yr achos hwn a bod y ddarpariaeth berthnasol yn cael ei gwneud trwy Reoliadau.

**Lesley Griffiths AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig**

Hydref 2020